Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarter Budd-daliadau Cymru

## Sut y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio yng Nghymru i ddarparu Budd-daliadau Cymru







Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Siarter Budd-daliadau Cymru**'.

**Chwefror 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Ebost:**
trechutlodiachefnogiteuluoedd@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Deall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **4**

**Ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru** ..... **8**

Dylunio System Budd-daliadau Cymru ..... 8

Cyflwyno System Budd-daliadau Cymru ..... 11

**Canlyniadau'r Siarter** ..... **15**

**Defnyddio'r Siarter** ..... **17**

Edrych i weld beth rydyn ni yn ei gyflawni ..... 18

**Mwy o wybodaeth** ..... **20**

# Cyflwyniad

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o Siarter Budd-daliadau Cymru.

Mae Siarter Budd-daliadau Cymru am:



- Ein nodau ar gyfer system Budd-daliadau Cymru.
- Beth fyddwn ni'n ei wneud a sut fyddwn ni'n gweithio i ddarparu Budd-daliadau Cymru.

Mae Budd-daliadau Cymru yn daliadau sydd yn cael eu gwneud i bobl drwy:



- Llywodraeth Cymru
- ac awdurdodau lleol Cymru.



Mae budd-daliadau eraill, fel Credyd Cynhwysol yn cael eu talu i bobl gan Lywodraeth y DU.

Mae budd-daliadau Cymru yn cynnwys pethau fel:



- **Prydau Ysgol am Ddim**




- **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** – yn helpu teuluoedd i dalu eu treth gyngor



- **Grant Hanfodion Ysgolion** – help i deuluoedd brynu pethau fel gwisg ysgol ac offer



- **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** – taliad i bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n aros mewn addysg




Ar hyn o bryd, mae’r budd-daliadau yma ar wahân i’w gilydd.



Mae hyn yn meddwl bod yn rhaid i bobl wneud llawer o wahanol hawliadau i gael yr help mae ganddyn nhw hawl iddo.



Rydyn ni eisiau ei gwneud hi’n haws i bobl yng Nghymru hawlio Budd-daliadau Cymru.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu hawlio’r help y mae ganddyn nhw hawl iddo.



Rydyn ni eisiau i bobl gael eu trin yn deg, gydag urddas a pharch.



Mae pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymuno â Siarter Budd-daliadau Cymru.



Mae hyn yn meddwl eu bod yn addo gweithio yn y ffyrdd sydd yn cael eu nodi yn y ddogfen yma.



Mae Siarter Budd-daliadau Cymru wedi cael ei ysgrifennu mewn partneriaeth â:

- Gweithwyr Proffesiynol sy’n ymwneud â Budd-daliadau Cymru.

- Pobl sy’n hawlio Budd-daliadau Cymru.

- Sefydliadau sy’n cefnogi pobl i hawlio.

# Ymrwymiadau Siarter Budd-daliadau Cymru




Ymrwymiadau ydy'r pethau rydyn ni yn addo eu gwneud a'r ffyrdd rydyn ni  yn addo gweithio.

## Dylunio System Budd-daliadau Cymru



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda:

- Awdurdodau lleol
- Partneriaid cyflawni
- Gweithwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â Budd-daliadau Cymru
- Pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Cymru



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda’n gilydd i ddylunio System Budd-daliadau Cymru sydd:




- Yn deg ac yn gyfartal i bawb.





- Yn addas ar gyfer anghenion pobl. Ac yn gallu newid i ateb anghenion pobl.



- Yn ateb anghenion grwpiau o bobl dan anfantais. Er enghraifft, pobl sy’n byw mewn tlodi, a phobl o gefndiroedd gwahanol.



- Cael gwared ar y rhwystrau sy’n stopio pobl rhag hawlio budd-daliadau. Ac mae’n gweithio i helpu pobl i gael yr help mae ganddyn nhw hawl iddo.



- Edrych ar pa mor dda y mae prosesau a systemau’n gweithio cyn eu defnyddio. Fe fydd hyn yn cael ei wneud gyda ‘r bobl sy’n eu defnyddio.



- Gofyn i bobl am ymateb. A defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud i wella pethau.




- Yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yng Nghymru.



- Yn gwneud yn siŵr bod Budd-daliadau Cymru newydd yn gweithio’n dda ochr yn ochr â Budd-daliadau’r DU. A llenwi unrhyw fylchau.



- Yn rhannu gwybodaeth am bobl sy’n hawlio budd-daliadau a fydd yn eu helpu. A dilyn y gyfraith am rannu data.



- Yn cefnogi pobl i hawlio budd-daliadau gan ddefnyddio’r Gymraeg.

# Cyflwyno System Budd-daliadau Cymru




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda:

- Awdurdodau lleol
- Partneriaid cyflawni
- Gweithwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â Budd-daliadau Cymru
- Pobl sy'n hawlio Budd-daliadau Cymru



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu System Budd-daliadau Cymru sydd:



- Yn rhannu adnoddau'n deg ac yn y ffordd orau i bobl yng Nghymru.



- Yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, gydag urddas a pharch.



- Yn newid prosesau a systemau i ateb anghenion pobl. Mae hyn yn meddwl edrych ar opsiynau ar gyfer cael **un pwynt mynediad** ar gyfer holl Fudd-daliadau Cymru.




- Mae hyn yn meddwl gallu hawlio holl Fudd-daliadau Cymru y mae gennych hawl iddyn nhw ar yr un pryd. Fe ddylai hyn fod yn y ffordd sy'n fwyaf addas i chi. Er enghraifft, ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post.



- Yn dilyn Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru.



- Yn cefnogi pobl i gael gwybod am unrhyw gymorth ariannol arall maen nhw'n gallu ei gael.



- Yn cefnogi pobl i ddeall beth maen nhw’n gallu gwneud hawl amdano. Ac yn eu helpu i wneud hawliadau. Fe fyddai hyn yn cynnwys:



– Dweud wrth bobl am Fudd-daliadau Cymru mewn sawl ffordd wahanol. Er enghraifft, trwy bethau fel cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion radio.




Fe ddylai negeseuon am Fudd-daliadau Cymru fod yn gadarnhaol. Fe ddylai negeseuon fod yn hawdd i bawb eu deall. Fe ddylen nhw fod ar gael mewn gwahanol fformatau fel Hawdd ei Ddeall, Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill.



– Gwneud yn siŵr bod gan staff wybodaeth a phrofiad da. A chael hyfforddiant parhaus fel eu bod nhw yn gallu rhoi’r cyngor a’r gefnogaeth fwyaf diweddar.



- Cyfeirio pobl at sefydliadau eraill sydd yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth. Mae hyn yn gallu bod yn sefydliadau sy’n gallu cefnogi pobl i ddod allan o dlodi. Neu sefydliadau sy’n gallu cefnogi pobl i wneud hawliadau a herio penderfyniadau.




- Gweithio gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod pa fudd-daliadau maen nhw’n gallu eu hawlio. Gan gynnwys budd-daliadau gan Lywodraeth y DU - fel Credyd Cynhwysol.



# Canlyniadau'r Siarter

Dyma beth rydyn ni eisiau i'r Siarter ei gyflawni:



- Mwy o bobl yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw.




- Polisi Cymraeg gwell, sydd wedi ei seilio ar beth mae pobl ei angen.



- Negeseuon clir am yr holl fudd-daliadau. Fe ddylai pobl wybod a deall pa gefnogaeth maen nhw'n gallu ei gael. Ddylen nhw ddim teimlo'n ddrwg na bod â chywilydd i hawlio budd-daliadau.



- Mae teuluoedd a chymunedau yn gryfach. Maen nhw’n gallu delio â materion ariannol yn haws pan fydd rhywbeth yn digwydd.



- Mae plant a phobl ifanc o gartrefi sydd ddim yn ennill llawer o arian yn well eu byd. Maen nhw yn cael eu cefnogi i gael dyfodol gwell, a chyrraedd eu potensial.



- Mae pobl yn dibynnu llai ar gymorth brys fel banciau bwyd.




- Fe fyddwn ni yn edrych ar faint o bobl sy’n hawlio Budd-daliadau Cymru. Felly rydyn ni’n gallu gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw.

# Defnyddio'r Siarter

Trwy gofrestru ar gyfer y Siarter yma, mae ein partneriaid yn cytuno:




- Gweithio gyda ni i wneud yn siŵr bod System Budd-daliadau Cymru yn gweithio i bobl Cymru.





- Helpu ni i ddatblygu camau a fydd yn gwneud pethau'n well i bobl.

# Edrych i weld beth rydyn ni yn ei gyflawni




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith gwerthuso. Dyma gynllun ar gyfer sut rydyn ni yn mesur beth rydyn ni yn ei gyflawni.




Fe fyddwn ni yn datblygu ffordd o edrych ar gynnydd ac ysgrifennu adroddiadau arno.



Fe fyddwn ni hefyd yn edrych ar y Siarter ei hun bob hyn a hyn. A gwneud yn siŵr ei fod yn dal i weithio i bobl.

**Rydyn ni yn cytuno i'r ymrwymiadau yn y Siarter yma. Fe fyddwn ni yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gyflawni'r nodau yn y Siarter yma. Llofnod:**

# Mwy o wybodaeth




Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am Siarter Budd-daliadau Cymru, rydych chi'n gallu ysgrifennu i ni drwy:



**Post:**

Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ



**Ebost:**

trechutlodiachefnogiteuluoedd@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49428, ISBN argraffu 978-1-83577-654-4, ISBN digidol 978-1-83577-653-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg